

Tasg 1

Egni Adnewyddol er mwyn y dyfodol!

1. Geirfa

CAM 1 - Allwch chi lenwi'r tabl? Sawl un allwch chi ei lenwi heb gymorth geiriadur?

CYMRAEG	DISGRIFIAD
egni adnewyddol	
amgylchedd	
mynyddig	
argloddiau (arglawdd)	
argaeau (argae)	
pryderon (pryder)	
dibynadwy	
generaduron (generadur)	
penbleth	

CAM 2 – Rhestrwch ymadroddion neu eiriau o'r e-bost sy'n cael eu defnyddio'n aml mewn gwaith mynegi barn.

CAM 3 - Pa ymadroddion a geiriau eraill a ddefnyddir yn aml wrth fynegi barn?

2. Mantesion/Anfateision

CAM 1 - Gwnewch dabl gyda dwy golofn – manteision ac anfanteision. Gan roi tabl yr un i'r Gwynt, y Môr a'r Haul, llenwch y colofnau gan ddefnyddio'r wybodaeth yn yr e-bost.

CAM 2 – Gan rannu eich grŵp yn 3. Un grŵp i gynrychiol'r gwynt, llall i gynrychioli'r môr a'r olaf i gynrychioli haul. Ymchwiliwch ar y we, gan roi geiriau Cymraeg yn y peiriant chwilio, e.e. "egni haul", "egni Gwynt", "melinau Gwynt", "egni môr", "morlyn llanw".

Ceisiwch ddefnyddio gwefannau Cymraeg yn unig i ddarganfod mwy o fanteision neu anfanteision i'w cynnwys yn eich tabl.

CAM 3 – Ail-ysgrifennwch e-bost eich elfen chi gan ddefnyddio'r wybodaeth newydd yr ydych wedi ei darganfod ar y we i berswadio Wil.